**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1386
Ein cyf/Our ref FM -/00837/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Petitions@senedd.cymru

31 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2023, ynghylch y ddeiseb yn galw ar y Senedd i fabwysiadu proses adalw.

Mae'n bwysig bod Aelodau etholedig yn parhau i fod yn atebol i'w hetholwyr drwy gydol tymor y Senedd.

Mae’r Senedd wrthi’n craffu ar ddiwygiadau arfaethedig i system etholiadol y Senedd, ac mae’r rhain wedi’u nodi ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae hyn yn dileu'r system "cyntaf i'r felin" a ddefnyddir ar hyn o bryd yn etholiadau'r 40 o etholaethau'r Senedd, gan ei disodli gyda system 16 o etholaethau chwe aelod, pob un yn cael ei ethol o restrau cyfrannol.

Nid yw'r darpariaethau yn y Bil yn caniatáu ar gyfer system o isetholiadau, ac felly os bydd sedd Aelod yn dod yn wag, mae'r sedd honno naill ai'n cael ei llenwi gan y person nesaf ar restr y blaid berthnasol a gafodd ei chyflwyno yn yr etholiad blaenorol, neu mae'n parhau'n wag os yw rhestr wedi ei disbyddu (neu os yw'r sedd wag wedi ei chreu gan Aelod a etholwyd fel aelod annibynnol).

Er ei bod yn bosibl dychmygu system lle y gellid adalw'r Aelod presennol ar sail canran benodol o etholwyr yn llofnodi deiseb, mae canlyniadau adalw aelod yn fwy cymhleth mewn system rhestr gyfrannol. Er enghraifft, byddai deiseb adalw lwyddiannus, o safbwynt y deisebydd, yn golygu'r canlynol:

- Byddai Aelod sy'n destun deiseb o'r fath yn colli ei sedd ar unwaith.
- Ni fyddai cyfle i'r Aelod a gafodd ei adalw amddiffyn ei hunan yn erbyn hynny mewn isetholiad. Yn hytrach, byddai'r sedd naill ai'n cael ei llenwi gan yr ymgeisydd nesaf ar restr y blaid berthnasol neu byddai'n parhau'n wag.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Gallai Aelod golli ei sedd yn ddi-droi'n ôl yn seiliedig ar ewyllys a fynegwyd gan ddim ond 10% o bleidleiswyr cofrestredig o fewn etholaeth (pe bai'r trothwy ym mhroses Senedd y DU yn cael ei fabwysiadu).

Efallai y bydd y pwyllgor yn dymuno gwybod bod deisebau adalw o fewn systemau rhestrau cyfrannol wedi cael rhywfaint o ystyriaeth yn yr Alban, fel rhan o ymgynghoriad ar gynnig ar gyfer Bil Aelodau, a wnaed gan Graham Simpson ASA ym mis Ionawr 2022. Yn y ddogfen ymgynghori, nododd yr Aelod y canlynol:

> *"I absolutely appreciate that the potential to introduce a recall system tailored to the Scottish Parliament has been deliberated on by academics and politicians amongst others before now. No workable model has ever been identified as far as I am aware. I am therefore realistic about the scale of the challenge in seeking to establish such a model. This is far from straightforward given the complexity of applying recall to the regional list system."*

Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu crynhoi fel a ganlyn:

> *"While the vast majority of respondents were fully supportive of the introduction of a system of recall, there was disagreement among responses as to how, if at all, such a system could work in practice. No response set out in detail a process for the recall of regional MSPs, with the Electoral Management Board for Scotland commenting that "recall at a regional level does not seem to be consistent with the proportional system if democracy is to be maintained".*

Nodaf fod y mater o adalw wedi'i godi gyda'r Pwyllgor Biliau Diwygio fel rhan o'i waith o graffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Dywedodd y Comisiynydd Safonau:

> *"Serious concerns about the inclusion in the Bill of a recall mechanism similar to the one in Recall of MP's Act 2015."*

Cyhoeddodd y Pwyllgor Biliau Diwygio ei adroddiad Cyfnod 1 ar 19 Ionawr, a bydd Llywodraeth Cymru nawr yn ystyried ac yn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw, gan gynnwys argymhelliad 50 mewn perthynas ag adalw.



**MARK DRAKEFORD**